

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL Y BIL YNNI

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

1. Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NNDM4634, ddarpariaethau pellach a gyflwynwyd yn y Bil Ynni ynghylch Dal a Storio Carbon, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog (RhS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan RhS 29.2. Yn ôl RhS 29, rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu bwrpas sy'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cafodd y Bil Ynni (y Bil) ei gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2010. Fe welwch y Bil yn: <http://services.parliament.uk/bills/2010-11/energyhl.html>

4. Mae'r Bil eisoes wedi bod yn destun Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad Cenedlaethol, lle rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol ei gydsyniad y dylai darpariaethau sy'n ymwneud â'r Awdurdod Glo yn Rhan 4 y Bil fod yn berthnasol yng Nghymru. Mae'r Memorandwm a oedd yn cyd-fynd â'r Cynnig hwnnw ynghlwm yn **Atodiad 1**.

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion o ran Polisi

5. Noddir y Bil gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae gan y Bil dri phrif amcan: mynd i'r afael â rhwystrau rhag buddsoddi ym maes arbed ynni; gwneud cyflenwadau ynni'n fwy diogel; a hwyluso buddsoddi mewn cyflenwadau ynni carbon isel.

6. Ceir darpariaethau yn y Bil ar gyfer cyllido mesurau arbed ynni mewn cartrefi a busnesau (y "Fargen Werdd") ac i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid preifat wneud eu heiddo domestig a masnachol yng Nghymru a Lloegr yn fwy ynni-ffeithlon. Hefyd, mae'r Bil yn cyflwyno targedau newydd ar gyfer cwmnïau ynni i leihau costau gwresogi cartrefi ac i wella cyfleoedd i weld data perfformiad ynni.

7. Ymhlith y meysydd polisi eraill y mae'r Bil yn ymdrin â nhw mae mynediad i drydydd parti at seilwaith olew a nwy y DU; trefn weinyddol arbennig ar gyfer

cyflenwyr ynni; a phwerau newydd i'r Awdurdod Glo. Mae'r Bil yn diddymu hefyd Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995.

Darpariaethau y ceisir cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar eu cyfer

8. Ers i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2010, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o ddarpariaethau pellach drwy gyfrwng gwelliannau gan y Llywodraeth.

9. Cafodd dau welliant eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU ar 2 Mehefin 2011 mewn perthynas â Dal a Storio Carbon. Pwrpas Dal a Storio Carbon yw lleihau'r carbon sy'n cael ei ryddhau i'r amgylchedd, fel rhan o'r polisi newid hinsawdd a gwneud cyflenwadau ynni'n fwy diogel. Yn yr achos hwn, drwy ddal carbon deuocsid a'i drawsgludo i'w storio mewn meysydd olew a nwy sydd wedi'u dihyssbyddu a/neu ffurfiannau halenog dan y môr.

10. Mae un o'r cynigion yn cynnig Cymalau newydd sy'n rhoi'r disgrisiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol (o dan Ddeddf Petrolewm 1998) wneud gweithredwyr blaenorol yn gyfrifol am ddatgomiynu cyfleusterau ar y môr sydd wedi'u troi'n adnoddau Dal a Storio Carbon. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd i'w weld ar wefan Senedd San Steffan yn: <http://services.parliament.uk/bills/2010-11/energyhl.html>

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y nodir ym Mhwnc 6 (Amgylchedd) yn Rhan 1 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

12. Mae'r gwelliant arall ynghylch Dal a Storio Carbon a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn cynnig Cymalau newydd a fydd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol roi hawliau gorfodol i ddatblygwyr ar dir lle ceir piblinellau y bwriedir eu troi'n gyfryngau carbon deuocsid at ddibenion Dal a Storio Carbon. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd i'w weld ar wefan Senedd San Steffan yn: <http://services.parliament.uk/bills/2010-11/energyhl.html>

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 12 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y nodir ym Mhwnc 6 (Amgylchedd) yn Rhan 1 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

14. Dyma grynodedb o'r gwelliannau hyn i'r Bil:

a) Rhoi'r gorau i ddefnyddio seilwaith a newidiwyd ar gyfer prosiectau arddangos Dal a Storio Carbon

15. Gellir troi cyfleusterau olew a nwy ar y môr yn adnoddau Dal a Storio Carbon. Gweithredwr y cyfleuster Dal a Storio Carbon sy'n gyfrifol am ddatgomiynu'r cyfleusterau hynny, ond os bydd y gweithredwr hwnnw yn methu yn ei gyfrifoldeb i wneud hynny, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddal y gweithredwr olew a nwy gwreiddiol yn gyfrifol (adran 34, Deddf Petrolewm

1998). Mae hyn yn gymhelliad i beidio â throi'r cyfleusterau hyn yn adnoddau Dal a Storio Carbon.

16. Bydd y gwelliant hwn yn rhoi'r disgrisiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan Ddeddf Petrolewm 1998, wneud gweithredwyr blaenorol yn gyfrifol am ddatgomisiynu cyfleusterau sydd wedi'u troi'n adnoddau Dal a Storio Carbon. Os bydd y gweithredwr Dal a Storio Carbon yn methu â chyflawni hyn, Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol am ddatgomisiynu'r safle.

17. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gwelliant hwn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol oherwydd:

- mai diben y gwelliant hwn, ar y cyfan, yw cael gwared ar y cymhelliad i beidio â Dal a Storio Carbon;
- bod y diben hwnnw yn berthnasol i'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd a/neu gasglu, rheoli neu waredu gwastraff;
- bod yna ddadl resymol nad yw carbon deuocsid, yng nghyd-destun Dal a Storio Carbon, wedi'i gynnwys yn eithriad "olew a nwy" Atodlen 7.

b) Pwerau Gorchmynion Prynu Gorfodol ar gyfer Newid y Defnydd ar Biblinellau Presennol

18. Mae yna wahaniaeth rhwng y pwerau sydd ar gael i ddatblygwr pan fydd yn adeiladu piblinell newydd a'r rheini sydd ar gael pan fydd yn bwriadu newid y defnydd ar biblinell bresennol. Ar hyn o bryd, mae angen i ddatblygwr gael cytundeb gwirfoddol gan bob perchennog tir ar hyd y biblinell er mwyn newid y defnydd ar biblinell, ond gall ddefnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol os yw'n bwriadu adeiladu piblinell newydd. Ystyrir bod angen i'r Llywodraeth ymyrryd, drwy ddiwygio Deddf Piblinellau 1962, er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn fel y gall datblygwyr Dal a Storio Carbon droi piblinellau presennol yn gyfryngau carbon deuocsid os byddant am wneud hynny.

19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gwelliant hwn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol oherwydd:

- mai diben y gwelliant hwn yw hwyluso Dal a Storio Carbon;
- bod y diben yn berthnasol i'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd a/neu gasglu, rheoli neu waredu gwastraff;
- bod yna ddadl resymol nad yw carbon deuocsid, yng nghyd-destun Dal a Storio Carbon, wedi'i gynnwys yn eithriad "olew a nwy" Atodlen 7.

20. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn felly wedi'i osod, a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i gyflwyno, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol iddo eu hystyried.

Manteision defnyddio'r Bil

21. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU gan mai hwnnw yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i gymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru..

Goblygiadau Ariannol

22. O roi darpariaethau perthnasol y Bil Ynni ar waith yn y dyfodol, ni ragwelir goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru na ellid ymdopi â hwy o fewn y rhwymedigaethau presennol.

John Griffiths AC

Gweinidog Cymru dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Mai 2011